Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwynfa II The Lodge**

**Bontnewydd**
**Caernarfon**
**LL54 7YH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/04/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gwynfa II The Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Preswyl Gwynfa |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22/10/2019 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn Gwynfa II The Lodge. Gwnaethom ddweud wrthym eu bod yn hapus ac fe'u gwelwyd yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r staff drwy gydol ein hymweliad. Dywedodd un person wrthym; *“you’ll find it all well here”*, dywedodd person arall; “*it’s nice and peaceful, staff are lovely, I’m very well looked after”.*

Mae'r bobl yn cael cymorth gan y staff gofal i ddiwallu eu hanghenion dyddiol a chan weithwyr proffesiynol allanol yn ôl yr angen. Caiff Iechyd a Diogelwch ei reoli'n dda ac mae cyfarpar ar gael ac yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd. Mae'r adborth gan y staff gofal yn gadarnhaol, ac maent yn mwynhau eu rolau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Ni chaiff prosesau recriwtio eu cynnal yn unol â'r gofynion rheoliadol er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phobl a allai fod yn wynebu risg.

Mae angen gwneud gwelliannau i'r broses o asesu ac adolygu cynlluniau personol y bobl yn barhaus er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu cynnwys ac er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn dangos pwy sy'n eu cwblhau a phryd. Mae angen gwneud gwelliannau i'r cofnodion mewn perthynas â meddyginiaethau yn y cartref.

Mae systemau ar waith ar gyfer monitro ansawdd y gwasanaeth ac mae'r unigolyn cyfrifol yn bresennol yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i'r cofnodion ar gyfer yr ymweliadau chwarterol a'r adolygiadau bob chwe mis er mwyn sicrhau y gofynnir am farn y bobl ac y caiff unrhyw gamau gweithredu a nodir drwy'r systemau archwilio eu hadolygu. Mae angen diweddaru'r dogfennau am y gwasanaeth fel bod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gwybod beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn dod i fyw yn y cartref.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal caredig a brwdfrydig. Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth o ran pa amser yr hoffent godi a mynd i'r gwely, ble yr hoffent dreulio eu hamser a beth yr hoffent ei fwyta. Mae'r staff gofal yn trin y bobl fel unigolion, a gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn amrywiaeth o ffyrdd gan ddefnyddio dulliau gwahanol. Roedd anghenion y bobl yn cael eu diwallu'n brydlon drwy gydol y dydd ac roedd digon o staff i'w gweld ym mhob ardal. Gwelsom y staff yn trin gwallt y bobl, yn edrych ar lyfrau atgofion ac yn annog y bobl i helpu gyda thasgau fel plygu dillad glân. Roedd gwahanol eitemau ar gael yn yr ardaloedd cymunedol i'r bobl ymgysylltu â nhw, fel llyfrau, cylchgronau, posau, teganau meddal a doliau. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac roeddent yn cyfeirio at eu galwedigaethau yn y gorffennol i'w hannog i ymgysylltu. Rhoddwyd cymorth i un person drefnu 'rota' ac i lenwi rhestr drwy gydol y dydd a oedd yn bwysig iddo. Cymraeg yw mamiaith y rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn y cartref ac roedd y staff yn ymgysylltu â nhw'n ddwyieithog yn hyderus, sy'n bwysig i'r bobl. Caiff gweithgareddau eu trefnu yn y cartref, gan gynnwys cerddoriaeth a symud, therapi anifeiliaid, paentio ewinedd, digwyddiadau tymhorol, a chantorion yn ogystal ag ymwelwyr a theithiau i'r gymuned. Mae'r bobl hefyd yn mwynhau'r ardaloedd yng ngardd y cartref pan fo'r tywydd yn braf. Mae angen datblygu'r broses o asesu ac adolygu anghenion gofal a chymorth y bobl yn barhaus er mwyn sicrhau bod y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses. Yn ogystal, mae angen gwelliannau i sicrhau bod gwybodaeth ar gael sy'n nodi pwy sy'n llunio ac yn adolygu'r cofnodion a phryd.

Caiff y bobl eu cefnogi gyda'u hiechyd a'u llesiant, yn gorfforol ac yn feddyliol. Gwelsom dystiolaeth fod gweithwyr proffesiynol allanol yn cael eu cynnwys a chofnodion da yn hyn o beth. Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rheoli meddyginiaeth yn ddiogel er mwyn gwneud yn siŵr bod cofnodion yn cael eu cwblhau a bod canllawiau arferion gorau ar gael i'r staff. Mae cofnodion ar gael pan fo'u hangen er mwyn i'r staff allu cadw llygad ar faeth a phwysau'r bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd ac os oedd unrhyw beth penodol yr hoffent ei gael eu bod yn gallu gofyn amdano. Gwelsom y bobl yn mwynhau sawl diod a byrbryd drwy gydol y dydd, ac roedd y prydau bwyd amser cinio a gyda'r nos yn edrych yn flasus ac yn arogli'n hyfryd.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion ac sy'n eu galluogi i symud yn annibynnol ac yn ddiogel o amgylch y cartref. Mae'r bobl wedi gwneud ffrindiau ac yn treulio amser yn yr ardaloedd cymunedol neu yn ystafelloedd ei gilydd. Mae angen datblygu'r dogfennau am y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bwysig am y cartref ar gael i'r bobl.

Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod y trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth yn cynnwys gofyn barn y bobl sy'n byw yno, eu teuluoedd neu eu cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, ac ystyried y farn honno. Rhaid i weithdrefnau recriwtio gael eu cynnal a

rhaid i'r wybodaeth berthnasol gael ei chofnodi yn ffeiliau'r staff er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl yn cael eu cadw mor ddiogel â phosibl.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl fod yn hyderus y gall y gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion gan fod asesiadau cyn derbyn yn cael eu cynnal a bod yr asesiadau hynny yn cynnwys gwybodaeth gan y bobl, eu teulu neu eu cynrychiolydd a gweithwyr proffesiynol allanol eraill. Nid yw'r darparwr yn cynnal asesiad y darparwr o fewn saith diwrnod i'r adeg y bydd person yn symud i mewn i'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Cawsom sicrwydd gan y darparwr y bydd yn ymdrin â hyn.

Mae'r cynlluniau cymorth a'r asesiadau risg yn amlinellu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar y bobl i'w cadw'n ddiogel ond hefyd i hyrwyddo eu hannibyniaeth, gan gydnabod y bydd y bobl o bosibl yn dewis gwneud penderfyniadau annoeth o hyd er gwaethaf y risgiau amlwg. Mae system ar waith gan y darparwr i adolygu a monitro dogfennau, ond mae angen ei datblygu er mwyn dangos tystiolaeth o unrhyw newidiadau ac i ddangos bod y bobl, neu eu cynrychiolwyr, wedi cael eu cynnwys yn y broses. Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff cofnodion eu llofnodi a'u dyddio i ddangos amserlen glir o ran pryd y cawsant eu llunio a'u hadolygu. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Caiff y bobl eu cefnogi i ddefnyddio gwasanaethau iechyd, ac mae'r staff yn nodi newidiadau o ran anghenion ac yn gwneud yr atgyfeiriadau penodol. Mae'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref yn cynnwys therapyddion galwedigaethol, meddygon teulu, ciropodydd, a'r tîm nyrsys ardal. Mae gwasanaethau seiciatreg, nyrsys iechyd meddwl a gweithwyr cymdeithasol hefyd yn ymwneud â'r bobl. Caiff apwyntiadau eu cofnodi a chaiff unrhyw gamau yn deillio o'r apwyntiadau hynny eu rhoi ar waith gan y staff. Roedd un o'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref yn ei ganmol yn uchel, gan nodi bod y trefniadau cyfathrebu yn rhagorol ac nad yw'r staff gofal yn gallu gwneud digon i'r bobl.

Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o anghenion meddyginiaeth y bobl a gwelsom arferion da ar waith yn ystod y rowndiau meddyginiaeth lle roedd y staff yn cyfathrebu'n gadarnhaol â'r bobl, yn neilltuo digon o amser iddynt ac yn rhoi tawelwch meddwl iddynt. Gwelsom dystiolaeth fod y darparwr yn cyfathrebu â gweithwyr meddygol proffesiynol mewn perthynas â meddyginiaeth y bobl os oedd unrhyw bryderon wedi'u nodi gan y cartref. Mae angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau cyffredinol ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel er mwyn sicrhau y caiff cofnodion eu cwblhau'n llawn a bod prosesau ar waith i fonitro'r broses o roi meddyginiaethau 'fel y bo'n ofynnol' (PRN) ac effeithiau'r meddyginiaethau hynny. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r staff mewn perthynas â'r arferion gorau wrth reoli meddyginiaethau. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu fel rhan o'u modiwlau sefydlu gorfodol ac yn mynychu gweithdai a gynhelir gan yr awdurdod lleol er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae'r bobl a gefnogir a'r staff yn gwybod gyda phwy y dylid siarad ag ef os bydd ganddynt bryder, ac mae gwybodaeth yn y datganiad o ddiben yn rhoi gwybod i'r bobl

gyda phwy y gallant gysylltu y tu allan i'r cartref. Mae'r darparwr yn cyflwyno hysbysiadau i'r rheoleiddiwr fel y bo'n ofynnol. Mae angen addasu'r polisi diogelu i adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan a chyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd croesawgar a glân sy'n cynnwys sawl ardal gymunedol y gallant dreulio amser ynddynt, gyda golygfeydd allan i'r môr neu tuag at y gerddi mawr. Caiff anghenion symudedd y bobl eu cefnogi drwy gyfarpar symud a chodi a chario, lifft a lifft grisiau sy'n galluogi'r bobl i symud yn annibynnol o amgylch y cartref. Caiff y cyfarpar ei wasanaethu'n rheolaidd ac, yn ôl yr olwg, roedd yn lân ac mewn cyflwr da.

Mae'r darparwr yn cynnal archwiliadau misol o'r amgylchedd ac yn cyflogi person cynnal a chadw i ymgymryd ag unrhyw waith atgyweirio sydd ei angen. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd trydanwr wrthi'n cynnal yr arolygiad gwifrau sefydlog ac yn bwrw ati â'r gwaith a nodwyd yn yr archwiliad tân. Roedd y cyfarpar tân wedi cael ei wasanaethu a gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal bob wythnos a bob mis yn y cartref. Roedd gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng.

Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn ddymunol ac yn gartrefol, wedi'u haddurno'n unol â chwaeth y bobl ac wedi'u personoli â lluniau, ornamentau a llenni a deunyddiau. Mae'r cynteddau wedi'u haddurno â lluniau o dirnodau adnabyddus yng Nghymru a lluniau o ddigwyddiadau. Mae arwyddion clir yn helpu'r bobl i gyrraedd ardaloedd penodol o'r cartref fel y lolfeydd a'r ystafelloedd ymolchi.

Mae rhywfaint o'r dodrefn yn y cartref wedi treulio ac mae angen ei adnewyddu. Roedd hyn yn fater a nodwyd fel rhan o archwiliadau amgylcheddol y darparwr ei hun a dywedwyd wrthym fod cadeiriau newydd wedi cael eu harchebu. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai atgyfeiriad yn cael ei wneud i'r therapydd galwedigaethol er mwyn holi a ellid cael codwyr cadeiriau er mwyn helpu'r bobl i godi o gadeiriau is.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y bobl eu cefnogi gan aelodau o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol. Yn ystod y pandemig, roedd yr hyfforddiant hwn ar-lein gan fwyaf ac mae'r darparwr bellach wedi dechrau trefnu hyfforddiant ychwanegol drwy'r awdurdod lleol i ategu'r modiwlau hyfforddiant craidd sy'n cael eu cwblhau gan y staff. Mae'r staff yn cael arfarniad blynyddol o'u gwaith a sesiynau goruchwylio unigol gyda'r tîm rheoli. Cawsom adborth cadarnhaol gan y staff am weithio yn y cartref ac am y cymorth y maent yn ei gael. Roedd y sylwadau yn cynnwys; *"great atmosphere, great place and great management, also residents are very looked after"*. Dywedodd un arall *"you feel part of the team straight away, staff and management are so nice, it's a very homely run establishment"*.

Gwelsom nad oedd pob agwedd ar y broses cyn cyflogi a'r gwiriadau fetio yn cael ei chynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn ddiogel i weithio gyda phobl a allai fod yn wynebu risg. Nid oedd ffeiliau'r staff yn cynnwys dogfennau adnabod â llun, geirdaon llawn, gwybodaeth yn dangos eu bod wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru na gwybodaeth am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Rhoddodd yr unigolyn cyfrifol sicrwydd i ni bod rhywfaint o'r wybodaeth hon yn cael ei chadw ar gyfrifiadur ac y byddai'n cael ei hychwanegu at y ffeiliau unigol. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod dau eirda wedi'u dilysu ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff cyn iddynt ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Mae hyn yn peri risg i'r bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae datganiad o ddiben ar waith, ond nid yw'n cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym fod angen ei ddiweddaru. Ar hyn o bryd, nid oes canllaw ysgrifenedig i'r gwasanaeth ar gael i roi gwybod i'r bobl a'u cynrychiolwyr beth y gallant ei ddisgwyl gan y cartref pan fyddant yn ystyried dod i fyw yno. Mae hyn yn rhan o faes i'w wella mewn perthynas â rheoli'r gwasanaeth, gan ystyried y datganiad o ddiben, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae systemau monitro da ar waith yn y cartref sy'n cael eu rhoi ar waith gan uwch-aelodau o'r staff a'r rheolwr. Fodd bynnag nid yw'r wybodaeth a gesglir yn yr archwiliadau hyn yn cael ei hadlewyrchu yn ymweliadau chwarterol yr Unigolyn Cyfrifol nac yn yr adroddiadau ar ansawdd y gofal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, gan ymgysylltu â'r bobl a gefnogir a'r staff, ond rhaid iddo sicrhau y caiff adborth ei gofnodi i ddangos tystiolaeth o safbwyntiau'r bobl. Mae'r wybodaeth a gesglir fel rhan o'r ymweliadau chwarterol a'r adroddiadau ar ansawdd y gofal yn cefnogi'r broses datganiadau blynyddol er mwyn gwella a datblygu'r gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 35 | Nid yw'r darparwr yn cyflawni'r holl wiriadau cyn cyflogi sy'n ofynnol cyn i bobl ddechrau gweithio yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn addas ac yn ddiogel i weithio gydag oedolion sy'n wynebu risg. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 6 | Nid yw'r darparwr yn sicrhau bod yr adroddiadau sy'n dangos bod y gwasanaeth yn cael ei fonitro a'i oruchwylio yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Nid oes digon o fanylion yn y systemau ar gyfer asesu, cynllunio gofal, monitro ac adolygu ac nid ydynt yn dangos bod y bobl yn cael eu cynnwys yn y broses. | Newydd |
| 58 | Nid yw'r cofnodion meddyginiaethau bob amser yn cael eu cwblhau'n llawn ac mae angen datblygu'r cofnodion sy'n ymwneud â meddyginiaethau 'fel y bo'n ofynnol' ymhellach. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/06/2023